



**BWRDD**  
GWASANAETHAU  
CYFREITHIOL

# **Cynllun Iaith Gymraeg**

**Paratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993**

*Papur ymgynghori ar y Cynllun Iaith Gymraeg  
drafft*

---



## **Cynnwys**

<b>1. Rhagair</b>	<b>4</b>
<b>2. Cyflwyniad</b>	<b>5</b>
<b>3. Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaeth</b>	<b>7</b>
<b>4. Gwasanaethau i'w Cyflenwi i'r Cyhoedd yng Nghymru</b>	<b>7</b>
<b>4.1. Gohebiaeth</b>	<b>7</b>
<b>4.2. Galwadau ffôn</b>	<b>8</b>
<b>4.3. Cyfarfodydd</b>	<b>8</b>
<b>4.4. Delwedd gorfforaethol</b>	<b>8</b>
<b>4.5. Cyhoeddiadau</b>	<b>9</b>
<b>4.6. Datganiadau i'r wasg</b>	<b>9</b>
<b>4.7. Recriwtio</b>	<b>10</b>
<b>4.8. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebion</b>	<b>10</b>
<b>4.9. Gwefan</b>	<b>11</b>
<b>4.10. Hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau cyhoeddus</b>	<b>11</b>
<b>5. Gweithrediad</b>	<b>11</b>
<b>6. Monitro'r cynllun</b>	<b>12</b>
<b>7. Cwynion</b>	<b>13</b>
<b>8. ATODIAD A: Meini Prawf ar gyfer Cyfieithu Cyhoeddiadau i'r Gymraeg</b>	<b>14</b>
<b>9. ATODIAD B: Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Cvfreithiol</b>	<b>15</b>
<b>10. ATODIAD C: Ymateb i'r Ymgynghoriad Hwn</b>	<b>20</b>

## 1. Rhagair

Mae'r papur ymgynghori hwn yn cynnwys Cynllun Iaith Gymraeg arfaethedig y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'n disgrifio sut, wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, y byddwn yn gweithredu'r egwyddor o drin y Gymraeg a Saesneg ar sail gyfartal wrth ddelio â busnesau cyhoeddus a gweinyddiaeth cyfiawnder yng Nghymru, cyn belled â'i bod yn briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cytuno ar y cynllun cyn ei gyhoeddi.

Mae'r cynllun yn cael ei ddarparu i ymgynghori â'r cyhoedd er mwyn ceisio barn ar yr hyn a argymhellir a rhoi effaith llawn a chywir i'r egwyddor allweddol o gydraddoldeb. Rydym yn croesawu barn unigolion a grwpiau ac yn edrych ymlaen gyda diddordeb i weld canlyniadau'r ymgynghoriad ac i weithrediad llawn y cynllun.

## 2. Cyflwyniad

- 2.1. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol (LSB) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a Saesneg ar sail gyfartal, cyn belled â'i bod yn briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Mae'r Cynllun yn cyflwyno sut fydd yr LSB yn gweithredu'r egwyddor hwnnw yn y gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru y mae'n gyfrifol amdanynt
- 2.2. Mae Cynllun Iaith Gymraeg (y Cynllun) y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol wedi ei baratoi yn unol ag Adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
- 2.3. Mae'r Cynllun wedi ei fabwysiadu gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol a'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis X Hydref 2010.
- 2.4. Mae'r LSB yn gyfrifol am oruchwyllo rheoleiddiad y sector gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n annibynnol o'r Llywodraeth a'r proffesiwn cyfreithiol. Mae'n goruchwyllo wyth corff unigol, y Rheolyddion Cymeradwy, sy'n rheoleiddio oddeutu 120,000 o gyfreithwyr sy'n ymarfer ledled y farnwriaeth eu hunain. Y Rheolyddion Cymeradwy hyn yw:
  - Cymdeithas y Cyfreithwyr
  - Cyngor y Bar
  - Sefydliad Gweithredwyr Cyfreithiol
  - Cyngor Trosgludiaethwyr Trwyddedig (corff rheoleiddio ar gyfer Trosgludiaethwyr Trwyddedig)
  - Sefydliad Siartredig Twrneiod Patent
  - Sefydliad Twrneiod Nod Masnach
  - Cymdeithas Drafftismyn Costau Cyfraith
  - Meistr y Gallueddau

Yn ogystal, mae'r cyrff canlynol wedi eu rhestru fel Rheolyddion Cymeradwy parthed gweithgareddau cofiant ar gadw yn unig:

  - Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban
  - Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
- 2.5. Nod yr LSB yw diwygio a moderneiddio'r farchnadle gwasanaethau cyfreithiol trwy osod buddiannau defnyddwyr yng nghalon y system, gan adlewyrchu amcanion y statud a'n creodd, y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007.

- 2.6. Nid yw'r LSB yn delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd na darparwyr gwasanaethau cyfreithiol – rôl y Rheolyddion Cymeradwy yw hyn. Mae'r Rheolau Rheoleiddiol a'r canllaw a ddatblygwn wedi eu hanelu at sicrhau fod gan y Rheolyddion Cymeradwy lywodraethu mewnol cadarn ac y gallwn orfodi'r rheolau hyn yn effeithiol.
- 2.7. Ffocws yr LSB yw darparu'r wyth amcan rheoleiddio, a sefydlir yn amlwg yn y Ddeddf. Sef:
- hyrwyddo lles y cyhoedd
  - cefnogi'r egwyddor gyfansoddiadol o reolaeth cyfraith
  - gwella mynediad at gyfiawnder
  - diogelu a hyrwyddo lles defnyddwyr
  - hyrwyddo cystadleuaeth o ran darpariaeth gwasanaethau yn y sector cyfreithiol  
annog proffesiwn cyfreithiol annibynnol, cryf, amrywiol ac effeithiol
  - cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o hawliau a dyletswyddau cyfreithiol
  - dinasyddion  
hyrwyddo a chynnal ymlyniad i egwyddorion y proffesiwn o annibyniaeth a hygredd; safonau cywir o waith; gofalu am fuddiannau'r cwsmer a'r ddyletswydd i'r llys; a chynnal cyfrinachedd y cwsmer.
- 2.8. Bydd y Bwrdd hefyd yn goruchwylio'r sefydliad newydd sy'n cael ei sefydlu i ddelio â chwynion cwsmeriaid am gyfreithwyr, Ombwdsmon y Gyfraith.
- 2.9. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol wedi penodi Panel Defnyddwyr sydd â'r rôl o ddarparu cyngor annibynnol am fuddiannau defnyddwyr gwasanaethau cyfreithiol. Mae'r Panel Defnyddwyr yn gyfrifol am ei weithgaredd cyfathrebu ei hun y bydd yn mabwysiadu'r polisïau a sefydlwyd yn y Cynllun Iaith hwn. Ceir rhagor o fanylion am y Panel ar ei wefan: [www.legalservicesconsumerpanel.org.uk](http://www.legalservicesconsumerpanel.org.uk).
- 2.10. Mae'r LSB wedi ei leoli yn Llundain; nid oes gennym unrhyw swyddfeydd yng Nghymru. Ein gwefan yw [www.legalservicesboard.org.uk](http://www.legalservicesboard.org.uk). Darperir manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

### 3. Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaeth

- 3.1. Byddwn yn sicrhau fod cydweithwyr a chynghorwyr sy'n gysylltiedig â llunio polisi a pharatoi deunydd cydymffurfio a'r rheolau yn ymwybodol o'r Cynllun a'n cyfrifoldebau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Wrth i ni ystyried a datblygu polisiâu newydd, neu adolygu'n polisiâu presennol wrth gyflawni'n busnes arferol, byddwn yn:
- asesu oblygiadau ieithyddol polisiâu sy'n effeithio ar wasanaethau a ddarperir i bobl yng Nghymru a sicrhau fod polisiâu a mentrau newydd yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn ac nad ydynt yn ei danseilio;
  - hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ble bynnag fo'n bosibl a chyn belled â'i bod yn ymarferol;
  - gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb ar bob cyfle, cyn belled â'i bod yn briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.
- 3.2. Nid yw'r LSB fel arfer yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau penodol i'r cyhoedd. Fel arfer fe'u cyflenwir gan Reolyddion Cymeradwy. O ran ein cyfrifoldebau ni, fe fyddwn yn:
- diddymu unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, megis addasu ffurflenni, addasu rheoliadau, rheolau neu weithdrefnau, neu ganiatáu ar gyfer trefnu a chyflawni gwasanaethau mewn modd sy'n hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau a'r cyhoedd;
  - ymgynghori â nhw, fel y disgrifir uchod, wrth i ni ddatblygu polisiâu a mentrau i sicrhau y talir sylw llawn i oblygiadau ar gyfer darpariaeth o'r gwasanaethau hyn yng Nghymru.
- 3.3. Byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw drefniant sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a wneir gyda thrydydd parti yn gyson â thelerau'r Cynllun ac wedi eu gweithredu yn ôl hynny.

### 4. Gwasanaethau i'w Cyflenwi i'r Cyhoedd yng Nghymru

#### 4.1. Gohebiaeth

- 4.1.1. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a anfonwyd atom yn Gymraeg o fewn yr un cyfnod amser ag ar gyfer gohebiaeth arall<sup>1</sup>.
- 4.1.2. Byddwn yn cychwyn cyfathrebu ag unigolion, grwpiau neu sefydliadau yn Gymraeg os gwyddom mai dyma yw eu hiaith ddewisol. Byddwn yn sefydlu cronfa ddata o'r sefydliadau hynny sydd eisiau gohebiaeth yn y Gymraeg.

---

<sup>1</sup> Mae'r LSB yn datblygu safonau gwasanaeth ar hyn o bryd ar gyfer ymateb i gyfathrebu.

- 4.1.3. Bydd yr un polisïau'n berthnasol i gyfathrebu dros e-bost â mathau eraill o gyfathrebu ysgrifenedig.
- 4.1.4. Bydd unrhyw gylchlythyr neu lythyrau safonol a gyhoeddir i'r cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.
- 4.1.5. Byddwn yn defnyddio cyfieithydd cymwys i ddarparu gwasanaeth cyfieithu fel fo angen ac yn cyhoeddi canllaw i gydweithwyr ar ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu cyn i'r cynllun ddod yn weithredol.

## **4.2. Galwadau ffôn**

- 4.2.1. Mae'r LSB wedi ei leoli yng nghanol Llundain ac mae'n cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd yn gyfyngedig iawn. Felly, nid yw'n ymarferol i ni gynnig gwasanaeth ffôn trwy gyfrwng y Gymraeg. I unrhyw un sydd am ein ffonio ac sydd eisiau gallu siarad Cymraeg, byddwn yn cynnig yr opsiwn o ysgrifennu atom yn Gymraeg neu barhau gyda'r sgwrs yn Saesneg.

## **4.3. Cyfarfodydd**

- 4.3.1. Os byddwn yn cynnal cyfarfodydd yng Nghymru, byddant yn cael eu hyrwyddo yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ei gwneud yn glir y bydd croeso i bawb sy'n cymryd rhan gyfrannu yn Gymraeg a Saesneg. Er mwyn cynorthwyo â threfniadau, byddwn:
- wrth gyhoeddi hysbysiad o'r cyfarfod, yn ei gwneud yn glir y byddwn yn parchu hawliau'r unigolion sy'n mynychu i siarad yn Gymraeg neu Saesneg;
  - yn gwahodd pawb sy'n bwriadu mynychu i roi gwybod i ni o flaen llaw beth yw eu dewis iaith;
  - yn cyhoeddi canllaw i gydweithwyr i'w helpu i benderfynu p'un a oes angen cyfleusterau cyfieithu parthed y mater i'w ystyried, lleoliad y cyfarfod a phwy sy'n debygol o fynychu, yn ogystal â p'un a ddynodwyd yn flaenorol y bydd cyfranwyr yn defnyddio'r ddwy iaith.
- 4.3.2. Oherwydd ein lleoliad a'r ffaith y cynhelir y rhan fwyaf o'n cyfarfodydd wyneb i wyneb, caeedig yn ein swyddfa yn Llundain, ni fyddai'n ymarferol i ni gyflawni'r cyfarfodydd hyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

## **4.4. Delwedd gorfforaethol**

- 4.4.1. Byddwn yn cyhoeddi delwedd gorfforaethol cwbl ddwyieithog ar holl ddeunydd cyfathrebu, dogfennau a chyhoeddiadau LSB i'w defnyddio yng Nghymru, ac yn unol â pharagraff 4.5. Mae hyn yn cynnwys ffurf Gymraeg teitl y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol. Bydd y dogfennau hyn hefyd ar gael ar wefan yr LSB ([www.legalservicesboard.org.uk](http://www.legalservicesboard.org.uk)).



- 4.4.2. Bydd unrhyw gyfathrebu wedi ei gyfeirio at aelod o'r cyhoedd neu sefydliad yng Nghymru hefyd ar bapur pennawd ddwyieithog, p'un a yw'r llythyr wedi ei ysgrifennu yn Gymraeg neu beidio.

#### **4.5. Cyhoeddiadau**

- 4.5.1. Mae'n cyhoeddiadau yn cynnwys adroddiadau, papurau ymgynghori a Rheoli Rheoliadol yn ymwneud â'n cyfrifoldebau ledled Cymru a Lloegr. Bydd cyhoeddiadau ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru naill ai trwy wefan yr LSB neu ar gais.
- 4.5.2. Bydd yr LSB yn cynhyrchu naill ai fersiwn ddwyieithog o'r ddogfen gyfan neu fersiwn ddwyieithog o Gynodeb Gweithredol cyhoeddiad yn seiliedig ar y meini prawf ar gyfer cyfieithu cyhoeddiadau i'r Gymraeg (Atodiad A).
- 4.5.3. Byddwn yn darparu fersiwn PDF electronig o'r dogfennau hyn i'w lawrlwytho ar yr un pryd â'r Saesneg ble fo'n ymarferol. Os na ddarperir fersiwn Gymraeg neu ddwyieithog, bydd cyfieithiad ar gais yn dal i fod yn opsiwn.
- 4.5.4. Bydd yr LSB yn croesawu ymatebion i ymgynghoriadau Cymraeg. Os cyflwynir ymateb yn Gymraeg, bydd yr LSB hefyd yn cyhoeddi fersiwn Gymraeg o Gynodeb Gweithredol Adroddiad Ymateb yr Ymgynghoriad. Os na dderbynnir unrhyw ymatebion yn Gymraeg, yna dim ond fersiwn Saesneg a gyhoeddir. Bydd cyfieithiad ar gais yn dal i fod yn opsiwn.
- 4.5.5. Pan fydd sefydliadau eraill, megis Rheolyddion Cymeradwy, Sefydliadau'r Sector Gyfreithiol a'r Trydydd Sector, yn dosbarthu gwybodaeth ar ein rhan, byddwn yn eu hannog i wneud hynny yn unol â'r uchod.

#### **4.6. Datganiadau i'r wasg**

- 4.6.1. Pan fydd dyddiadau cau yn caniatáu, cyhoeddir datganiadau i'r wasg i'r wasg a chyfryngau darlledu Gymraeg a Saesneg yng Nghymru yn ddwyieithog.
- 4.6.2. Bydd y datganiadau hyn hefyd ar gael ar wefan yr LSB ([www.legalservicesboard.org.uk](http://www.legalservicesboard.org.uk)).

#### **4.7. Recriwtio**

- 4.7.1. Gan fod ein swyddfeydd wedi eu lleoli yn Llundain yn bennaf, rydym yn recriwtio'n genedlaethol ac yn hysbysebu yn Saesneg. Nid ydym yn disgwyl newid yr arfer hwn.
- 4.7.2. Os bydd LSB yn gosod hysbysebion i recriwtio cydweithwyr mewn papurau newydd (neu gyfryngau tebyg) Saesneg a ddsberthir ar y cyfan neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, byddant yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau Cymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg.
- 4.7.3. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – un ai mewn un fersiwn dwyieithog neu ar wahân yn Gymraeg a Saesneg.
- 4.7.4. Nid yw'r LSB yn arfer darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i siaradwyr Cymraeg, ac nid yw'r sefyllfa hon yn debygol o newid. Felly, nid yw recriwtio staff Cymraeg yn ffactor hanfodol o ran cyflawni'r Cynllun.

#### **4.8. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebion**

- 4.8.1. Os yw'r LSB yn cynnal unrhyw weithgareddau cyhoeddusrwydd, arddangos neu hysbysebu wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru, cynhyrchir yr holl ddeunydd hysbysebu yn gwbl ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.
- 4.8.2. Os byddwn yn cyhoeddi hysbyseb gyffredinol, nad yw i ddibenion recriwtio, fe osodir fersiwn ddwyieithog yn y wasg Gymreig os yw'n ymwneud â:
  - materion o arwyddocâd mawr i Brydain yn gyffredinol;
  - materion o ddiddordeb penodol yng Nghymru.

#### **4.9. Gwefan**

- 4.9.1. Wrth ddylunio gwefan newydd, neu wrth ailddatblygu'r wefan gyfredol, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* y Bwrdd ac unrhyw ganllawiau tebyg a gyhoeddir gan y Bwrdd ynglŷn â dylunio gwefannau.
- 4.9.2. Byddwn yn gweithredu rhaglen i gynyddu Cynnwys Cymraeg ein gwefan yn ystod y tair blynedd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys:
- Blwyddyn Un:
    - Sicrhau fod holl gyhoeddiadau Cymraeg yr LSB ar gael
    - Datblygu fersiwn Gymraeg o dudalen hafan gwefan LSB
  - Blwyddyn Dau:
    - Ymestyn cynnwys Cymraeg y wefan i dudalen 'Cysylltwch â Ni'
  - Blwyddyn Tri:
    - Ystyried p'un a oes angen rhagor o gynnwys Cymraeg, yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr.
- 4.9.3. Pryd bynnag fyddwn yn gosod cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefan, bydd fersiynau Cymraeg sydd ar gael yn cael eu gosod cyn gynted â'i bod yn ymarferol bosibl.

#### **4.10. Hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau cyhoeddus**

- 4.10.1. Bydd pob hysbysiad swyddogol a hysbysiadau cyhoeddus i'w cyhoeddi neu osod mewn manau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog neu yn Gymraeg a Saesneg.

### **5. Gweithrediad**

- 5.1. Mae'n Bwrdd wedi cytuno ar y mesurau yn y cynllun ac mae ganddynt awdurdod llawn y sefydliad o ran eu gweithredu.
- 5.2. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau y gweithredir y cynllun hwn ledled y sefydliad, fodd bynnag, ar sail dydd i ddydd, rheolwyr fydd yn gyfrifol am weithredu agweddau perthnasol y cynllun i'w gwaith ac ystyried y cynllun wrth gychwyn prosiect newydd.
- 5.3. Bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi'n fewnol i'n cydweithwyr ac yn gyhoeddus trwy'n gwefan.

- 5.4. Fe gynhyrchir canllaw desg i gydweithwyr i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o amodau'r cynllun ac yn deall sut i weithredu ei fesurau. Bydd y canllaw desg yn cynnwys:
- delio â chyfathrebu yn y Gymraeg;
  - pryd i ystyried cyhoeddi dogfennau, cyhoeddiadau a deunydd hyrwyddo dwyieithog neu Gymraeg a Saesneg;
  - oblygiadau'r Cynllun ar gyfer y rhai sy'n caffael gwasanaethau gan drydydd partïon;
  - gwiriadau yn y prosesau polisi a chaffael, i sicrhau yr ystyrir y dimensiwn Cymraeg ar yr adeg briodol.
- 5.5. Byddwn, fel fo'n briodol, yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi i'n cydweithwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun – ac er mwyn egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.
- 5.6. Byddwn yn sicrhau na ddefnyddiwn ond gyfieithwyr neu gyfieithwyr-ar-y-pryd cymwysedig i helpu i wireddu agweddau o'r cynllun hwn.

## 6. Monitro'r cynllun

- 6.5. Byddwn yn monitro'r cynnydd a wnawn o ran gwireddu'r cynllun hwn yn ôl y targedau sydd wedi'u nodi yn y cynllun gweithredu sydd ynghlwm wrtho
- 6.6. Cynhwysir cynnydd ar weithredu'r trefniadau a amlinellir yn y cynllun hwn yn ein gweithdrefnau monitro perfformiad ac adrodd presennol.
- 6.7. Y Prif Weithredwr fydd yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynllun.
- 6.8. Pob mis Gorffennaf, byddwn yn darparu adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ffurf a gymeradwyir ganddynt, yn disgrifio cynnydd o ran gweithredu'r mesurau yn y cynllun hwn yn erbyn yr amserlen a gymeradwywyd yn y cynllun gweithredu.
- 6.9. O bryd i'w gilydd bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig addasiadau iddo, oherwydd newidiadau i'n sefydliad. Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

## 7. Cwynion

- 7.1. Dylid cyfeirio cwynion neu awgrymiadau ar gyfer gwelliant at Julie Myers, Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn y cyfeiriad canlynol:

Julie Myers  
Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol  
7<sup>th</sup> Floor Victoria House  
Southampton Row  
Llundain WC1B 4AD

Neu drwy e-bost i: [julie.myers@legalservicesboard.org.uk](mailto:julie.myers@legalservicesboard.org.uk)

## **8. Atodiad A: Meini Prawf ar gyfer Cyfieithu Cyhoeddiadau i'r Gymraeg**

Wrth ystyried p'un a ydym am gyfieithu deunydd i'r Gymraeg, dylid defnyddio'r meini prawf canlynol:

### **1. Y gynulleidfa darged neu statws**

A yw'r deunydd wedi ei anelu at:

- • y cyhoedd ac yn ymwneud â darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru
- • sector benodol yn cynrychioli unigolion Cymraeg eu hiaith
- • unigolion yn cynrychioli grwpiau penodol Cymraeg eu hiaith

### **2. Testun**

A fyddai cyhoeddi'r ddogfen yn Saesneg yn eithrio siaradwyr Cymraeg rhag cael mynediad i'r wybodaeth?

### **3. Diddordeb y Cyfryngau**

A yw'r cyhoeddiad yn debygol o ddenu sylw sylweddol gan y cyfryngau uniaith Gymraeg?

### **4. Dogfennau ymgynghori**

A yw'r cyhoeddiad yn ddogfen ymgynghori?

- A yw'r ddogfen yn berthnasol i randdeiliaid yng Nghymru yn unig?
- A yw'r ddogfen yn arbennig o berthnasol i randdeiliaid yng Nghymru yn unig?
- A yw'r ddogfen yn ymwneud â darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru?

## 9. Atodiad B: Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol

Adran	Gweithred	Meini Prawf Llwyddiant	Dyddiad Targed
3. Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn cyflwyno gwiriadau i'r broses datblygu polisi i sicrhau yr ystyrir y Gymraeg ac i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i atal y Rheolyddion Cymeradwy rhag defnyddio Cymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae polisiâu, mentrau a gwasanaethau yn gyson ag ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun Iaith Gymraeg</li> </ul>	Tachwedd 2010
4.1. Gohebiaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn cyhoeddi canllaw i gydweithwyr ar bob agwedd o'n dyletswyddau a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys, parthed cyfathrebu a dderbyniwyd yn Gymraeg: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Y gofyniad i ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg o fewn yr un cyfnod amser ag ar gyfer gohebiaeth arall.</li> <li>○ Ein bod yn cychwyn cyfathrebu ag unigolion, grwpiau neu sefydliadau yn Gymraeg os gwyddom mai dyma yw eu hiaith ddewisol.</li> </ul> </li> <li>• Byddwn yn sefydlu cronfa ddata o'r sefydliadau hynny sydd eisiau i ni ddelio â nhw trwy gyfrwng y Gymraeg.</li> <li>• Byddwn yn cofrestru cyfathrebu a dderbynnir yn Gymraeg ar ein Cofrestr Cyfathrebu bresennol gan fonitro faint o amser a gymer i ymateb.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymatebir i gyfathrebu Cymraeg yn Gymraeg o fewn yr un cyfnod o amser â chyfathrebu arall</li> </ul>	<p>Tachwedd 2010</p> <p>Hydref 2010 Hydref 2010 -monitro parhaus</p>

4.2. Galwadau Ffôn	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn cyhoeddi canllaw i gydweithwyr ar bob agwedd o'n dyletswyddau a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys, parthed delio â galwadau ffôn yn Gymraeg: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Y gofyniad i gynnig yr opsiwn o ysgrifennu atom yn Gymraeg neu barhau gyda'r sgwrs yn Saesneg i unrhyw un sy'n ein ffonio ac sydd eisiau gallu siarad Cymraeg.</li> </ul> </li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd gan gydweithwyr ddealltwriaeth glir o sut i ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg.</li> <li>•</li> </ul>	Tachwedd 2010
4.3. Cyfarfodydd	<p>Byddwn yn cyhoeddi canllaw i gydweithwyr ar bob agwedd o'n dyletswyddau a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys, parthed cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Rhaid hysbysebu cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg a gofyn i fynychwyr roi gwybod i ni o flaen llaw beth yw eu hiaith ddewisol</li> <li>• ○ Canllaw i helpu cydweithwyr i benderfynu p'un a oes angen cyfleusterau cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru</li> </ul>	<p>Mae gan gydweithwyr ddealltwriaeth glir o'r cyfleusterau cyfieithu fyddai angen eu darparu mewn cyfarfodydd yng Nghymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>•</li> </ul>	Tachwedd 2010
4.4. Hunaniaeth Gorfforaethol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn datblygu templedi a phapur pennawd cwbl ddwyieithog i'w ddefnyddio yng Nghymru ac ar gyfer dogfennau a ddefnyddir yng Nghymru.</li> </ul>	<p>Cyflwynir hunaniaeth gorfforaethol gyson ar yr holl ddogfennaeth a gyflwynir yn</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gymraeg neu Saesneg</li> </ul>	Hydref 2010
4.5. Cyhoeddiadau	<p>Byddwn yn cyhoeddi canllaw i gydweithwyr ar bob agwedd o'n dyletswyddau a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys, parthed cyfieithu cyhoeddiadau i'r Gymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Canllaw i bennu pa gyhoeddiadau a ddylid eu cyfieithu i'r Gymraeg.</li> <li>○ Sicrhau pan fydd polisiâu newydd yn cael eu llunio neu ddogfennau'n cael eu drafftio, yr ystyrir oblygiadau ieithyddol cyfieithiadau posibl.</li> </ul>	<p>Mae gan gydweithwyr ddealltwriaeth glir o ba bryd a ddylid cyfieithu dogfen i'r Gymraeg ac y gweithredir ymagwedd gyson ledled y sefydliad.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddir dogfennau sydd wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg ar ddiwyg dwyieithog neu ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg ble fo hyn yn ymarferol.</li> <li>• Cyflwynir dogfennau yn Gymraeg i'r un safon a'r fersiynau Saesneg.</li> </ul>	Tachwedd 2010



4.6. Datganiadau i'r Wasg	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn sefydlu gweithdrefnau i sicrhau, ble fo amser yn caniatáu, y cyhoeddir datganiadau i'r wasg a chyfryngau darlledu Cymraeg a Saesneg yng Nghymru yn ddwyieithog os yw'r dyddiadau cau yn caniatáu hynny.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan gydweithwyr ddealltwriaeth glir o bryd ddylid cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ac y gweithredir ymagwedd gyson ledled y sefydliad.</li> </ul>	Tachwedd 2010
4.7. Recriwtio	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn sicrhau fod ein hymroddiadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg wedi eu hadlewyrchu yn ein polisi recriwtio. Bydd hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Os bydd LSB yn gosod hysbysebion recriwtio mewn papurau newydd (neu gyfryngau tebyg) Saesneg a ddosberthir ar y cyfan neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, byddant yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar wahân.</li> <li>○ Gosod hysbysiadau Cymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg.</li> <li>○ Y gofyniad i sicrhau fod y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran diwyg, maint, ansawdd ac amlygrwydd.</li> </ul> </li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adlewyrchir yr ymroddiadau a wnaed yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn ein polisi recriwtio.</li> <li>• Mae cydweithwyr yn ymwybodol o ac yn deall ein cyfrifoldebau recriwtio dan y Cynllun Iaith Gymraeg.</li> </ul>	Tachwedd 2010
4.8. Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd a Hysbysebion	<p>Byddwn yn cyhoeddi canllaw i gydweithwyr ar bob agwedd o'n dyletswyddau a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys, parthed lansio ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn Gymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Y bydd yr holl ddogfennaeth ategol yn cael ei gynhyrchu'n gwbl ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.</li> <li>○ Cyhoeddir hysbysebion cyffredinol nad ydynt i ddiben recriwtio ac sydd o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd yng Nghymru neu o bwys mawr i gyhoedd Prydain Fawr, fel fersiwn ddwyieithog yn y wasg Gymraeg</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd cydweithwyr yn deall pryd fydd angen cynhyrchu deunydd yn Gymraeg ac fe fabwysiadir ymagwedd gyson ledled y sefydliad os bydd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn cael eu lansio yn Gymraeg.</li> </ul>	Tachwedd 2010

4.9. Gwefan	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Wrth dylunio gwefan newydd, neu wrth ailddatblygu'r wefan gyfredol, byddwn yn ystyried <i>Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog</i> Bwrdd yr Iaith ac unrhyw ganllawiau tebyg a gyhoeddir gan Fwrdd yr Iaith ynglŷn â dylunio gwefannau.</li> <li>• Pryd bynnag fyddwn yn gosod cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, os y'u cynhyrchwyd, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu gosod ar yr un pryd ag sy'n ymarferol bosibl.</li> <li>• Byddwn yn cytuno ar raglen gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gynyddu cynnwys Cymraeg ar ein gwefan.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd cyhoeddiadau Cymraeg ar gael ar y wefan.</li> <li>• Bydd tudalennau yn cynnwys</li> <li>• Os yn briodol, bydd y wefan yn adlewyrchu <i>Safonau Meddalwedd Dwyieithog</i> Bwrdd yr Iaith Gymraeg</li> </ul>	Tachwedd 2010  Yn unol ag amserlen datblygu TG/gwefan LSB.
4.10. Hysbysiadau Swyddogol a Hysbysiadau Cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd pob hysbysiad swyddogol a chyhoeddus i'w cyhoeddi neu osod mewn manau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog neu yn Gymraeg a Saesneg.</li> </ul>	Bydd gan staff ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau wrth gyhoeddi hysbysiadau <ul style="list-style-type: none"> <li>• swyddogol neu gyhoeddus mewn manau cyhoeddus yng Nghymru.</li> </ul>	Tachwedd 2010

<p>5. Gweithredu'r Cynllun</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Fe gynhyrchir canllaw mewnol i gydweithwyr i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o amodau'r cynllun ac yn deall eu cyfrifoldebau dano.</li> <li>• Byddwn yn trefnu sesiwn hyfforddi i'n cydweithwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun – ac er mwyn egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.</li> <li>• Bydd cyfathrebu a dderbynnir trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gofnodi ar ein Cofrestr Cyfathrebu bresennol gan fonitro'r amser a gymer i ymateb.</li> <li>• Byddwn yn defnyddio gwasanaethau cyfieithydd cymwys i helpu gyda chyflawni rhai agweddau o'r cynllun.</li> <li>• Cofnodir ceisiadau am sgysiau ffôn a sawl gwaith y defnyddir yr opsiwn i ddefnyddio Cymraeg mewn cyfarfod yng Nghymru er mwyn i ni allu monitro'r nifer o achosion pan dderbyniwyd cais o'r fath ac adolygu'r Cynllun Iaith Gymraeg fel fo angen.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn cynhyrchu a dosbarthu canllaw mewnol i staff.</li> <li>• Bydd cydweithwyr yn deall eu cyfrifoldebau dan y Cynllun Iaith Gymraeg yn llwyr</li> <li>• Gweithredir yr ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn gyson ledled y sefydliad gan bob cydweithiwr.</li> </ul>	<p>Tachwedd 2010</p> <p>Rhagfyr 2010</p> <p>Hydref 2010</p> <p>Hydref 2010</p> <p>Hydref 2010</p>
<p>6. Monitro'r cynllun</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn monitro'n perfformiad o ran bodloni'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun a chofnodi'r galw am wasanaethau Cymraeg, yn cynnwys unrhyw alw am wasanaethau sy'n mynd tu hwnt i'r ymrwymadau a wnaed gennym.</li> <li>• Pob Gorffennaf bydd yr LSB yn darparu Bwrdd yr Iaith Gymraeg â ffurflen asesu gyflawn yn asesu perfformiad o ran gweithredu'r Cynllun. Cyflwynir yr adroddiad i'r SMT a'r Bwrdd cyn ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd cynnydd o ran gweithredu'r ymroddiadau a wnaed yn y Cynllun Iaith yn cael eu cynnwys ym mhroses rheoli perfformiad yr LSB.</li> <li>• Bydd yr LSB yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn defnyddio diwyg cymeradwy ac ar amser.</li> </ul>	<p>Yn fisol o Tachwedd 2010</p> <p>Yn flynyddol yng Hydref</p>

## 10. ATODIAD C: Ymateb i'r Ymgynghoriad Hwn

Rydym yn croesawu barn a sylwadau ar bob agwedd o'n Cynllun Iaith Gymraeg drafft erbyn 5yh ar 16 Awst 2010.

Rydym hefyd yn awyddus i ymgysylltu mewn dulliau eraill a byddem yn croesawu cyswllt â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghorol.

Mae copïau o'r Cynllun ar gael naill ai dros e-bost neu gopi caled neu ar gais trwy gysylltu â Michelle Jacobs.

Gofynnir i chi anfon sylwadau at Michelle Jacobs. Byddai'n well gennym dderbyn ymatebion yn electronig (ar ffurf Microsoft Word), ond croesawir ymatebion copi caled trwy'r post neu ffacs hefyd.

Dylid anfon ymatebion at:

E-bost: [consultations@legalservicesboard.org.uk](mailto:consultations@legalservicesboard.org.uk)

Post: Michelle Jacobs  
Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol  
7<sup>th</sup> Floor, Victoria House  
Southampton Row  
Llundain  
WC1B 4AD

Ffacs: 020 7271 0051

Os hoffech drafod unrhyw agwedd o'r ymgynghoriad hwn, neu os ydych angen cyngor ar sut i ymateb, cysylltwch â'r LSB dros y ffôn (020 7271 0050), neu yn defnyddio un o'r dulliau a ddisgrifir uchod.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar ein gwefan oni bai fod yr ymatebwr yn gofyn yn benodol i gadw rhan o'r ymateb, neu'r ymateb llawn, yn gyfrinachol. Byddwn yn cofnodi hunaniaeth yr ymatebwr a'r ffaith eu bod wedi cyflwyno ymateb cyfrinachol yn ein crynodeb o ymatebion.

Byddwn yn cadw copi o'r holl ymatebion ac yn hysbysu y bydd y Cynllun terfynol yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi erbyn Hydref 2010.